Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – Crynodeb Gweithredol

# Cynnal Cymru Fyw

## Papur Gwyrdd ar ddull newydd o reoli adnoddau naturiol Cymru

**Trosolwg**

Roedd y Papur Gwyrdd hwn yn ceisio safbwyntiau ar ddull newydd o reoli a rheoleiddio'r amgylchedd yng Nghymru. Yn bennaf bydd yr ymgynghoriad yn llywio Bil yr Amgylchedd 2014/15 a'r Bil Cynllunio arfaethedig. Bydd y cynigion o ddiddordeb arbennig i fusnesau rheoledig a'r rheini sy'n defnyddio ac yn rheoli'n tir a'n dŵr, gan gynnwys y ffermwyr a'r coedwigwyr sydd, gyda'i gilydd, yn rheoli mwy na 75% o arwynebedd tir Cymru.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 30 Ionawr 2012 a 31 Mai 2012.

ISBN digidol 978 0 7504 7913 4
© Hawlfraint y Goron 2012
WG16386

# Ymgynghoriad *Cynnal Cymru Fyw*

## *Crynodeb o'r Adroddiad*

Roedd ymgynghoriad Llywodraeth Cymru *Cynnal Cymru Fyw* yn argymell cynigion i fabwysiadu dull newydd o reoli a rheoleiddio adnoddau amgylcheddol a naturiol Cymru. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad o 30 Ionawr i 31 Mai 2012. Mae'r ddogfen hon yn rhoi trosolwg ar yr adroddiad llawn sy'n crynhoi'r farn a fynegwyd mewn ymatebion i'r ymgynghoriad.

Ar gyfer rhagor o wybodaeth am bob un o'r cwestiynau yn yr ymgynghoriad, y farn a fynegwyd a rhestr o'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad, gweler yr adroddiad manwl yn:
http://wales.gov.uk/consultations/environmentandcountryside/sustainingwales/?skip=1&lang=cy.

Mae gwybodaeth bellach am raglen Llywodraeth Cymru ar gyfer cynllunio adnoddau naturiol, ynghyd â dogfennau cysylltiedig, gan gynnwys y crynodeb hwn, i'w gweld yn: www.cymru.gov.uk/cymrufyw.

**Pwy a ymatebodd i'r ymgynghoriad ac ar ba ffurf?**

Cafwyd cyfanswm o 279 o ymatebion, 131 gan unigolion a 148 gan gyrff. Cyflwynodd rhai cyrff ymatebion ar y cyd i'r ymgynghoriad hwn a'r ymgynghoriad *Adnoddau Naturiol Cymru* ynghylch creu'r corff unigol newydd i Gymru (http://wales.gov.uk/consultations/amgylcheddandcountryside/singlebody/?skip=1&lang=cy) ac rydym wedi ystyried y rhain wrth baratoi'r adroddiad hwn.

O'r ymatebion gan gyrff, roedd 58 gan gyrff gwirfoddol, 31 gan y sector cyhoeddus a 27 gan gyrff masnachol. Cafwyd ymatebion gan ystod eang o sectorau, er mai'r prif sectorau ymhlith yr ymatebion oedd cadwraeth, mynediad a hamdden; gyda'i gilydd roedd y sectorau hyn yn cynrychioli tua phumed ran o'r ymatebion. Roedd cynrychiolaeth eithaf da gan Lywodraeth Leol a chyrff amgylcheddol a chafwyd sylwadau gan gyrff sydd â diddordeb mewn treftadaeth, addysg, y gwyddorau naturiol a chynllunio. Y prif ddiwydiannau a gyflwynodd ymatebion oedd ynni, coedwigaeth ac amaeth, ynghyd â nifer bychan iawn o ymatebion from gan gyrff sy'n ymwneud ag adnoddau dŵr, mwynau, pysgodfeydd, cludiant, amddiffyn, iechyd a thai.

Atebodd tua hanner y cwestiynau yn y papur ymgynghori a rhoddodd y gweddill eu sylwadau ar ffurf fwy 'rhydd'. Cynhwysai hyn nifer o lythyrau gan gefnogwyr y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar a'r ymddiriedolaethau bywyd gwyllt, yn seiliedig ar bwyntiau allweddol cyffredin yr oedd y cyrff hyn yn awyddus i'w gwneud.

Roedd llawer o'r rhai a ymatebodd i gwestiynau'r ymgynghoriad hefyd yn rhoi sylwadau cyffredinol ehangach. Mae'r holl ymatebion wedi cael eu hystyried wrth i ni baratoi'r adroddiad, beth bynnag oedd y fformat y gwnaed y sylwadau ynddo. Mae cyfanswm yr ymatebion yn llenwi rhyw 1,200 tudalen o destun.

**Beth ddywedodd yr ymatebion?**

***Cefnogaeth i'r dyheadau strategol:*** Roedd y mwyafrif llethol yn cytuno â'r dyheadau cyffredinol yn yr ymgynghoriad ac yn cymeradwyo'r ffaith ei bod yn ymddangos bod Llywodraeth Cymru yn fodlon dilyn ffordd ffres ac arloesol yn holl faes rheoleiddio a rheoli amgylcheddol.

***Sefydlu'r angen i newid:*** Un o'r themâu cyson yn yr ymatebion oedd yr angen i seilio unrhyw newidiadau i'r systemau presennol ar dystiolaeth gadarn, yn enwedig yn nhermau beth nad yw'n gweithio gyda'r dulliau presennol neu sy'n methu diwallu anghenion rheoli'r amgylchedd. Awgrymwyd y dylid cydnabod cyflawniadau'r systemau presennol ac na ddylid cyflwyno newidiadau oni bai fod rhesymau clir pam fod y newid yn debygol o gael canlyniadau a deilliannau gwell.

***Gwrthsefyll colli bioamrywiaeth Cymru a'i hadfer:*** Mynegwyd pryder nad yw'r papur ymgynghori yn pwysleisio digon bod ffordd newydd yn cael ei datblygu mewn ymateb uniongyrchol i fethiant Cymru i gyflawni ei thargedau o ran bioamrywiaeth. Gwnaeth llawer o'r rhai a ymatebodd annog Llywodraeth Cymru i ddal i flaenoriaethu gwrthsefyll colli bioamrywiaeth a'i hadfer a rhoi hyn yng nghraidd cynigion ar gyfer diwygio'r modd rydym yn defnyddio a rheoli adnoddau naturiol Cymru i'r dyfodol.

***Cefnogi'r dull ecosystem:*** Roedd cefnogaeth sylweddol i'r cynigion canolog yn y papur, sef y symudiad tuag at ddull ecosystem, datblygu cynllunio adnoddau naturiol ar lefelau lleol a chenedlaethol a symleiddio'r trefniadau rheoleiddio. Ychydig iawn o ymatebion a anghytunai â'r amcanion hyn, ond gwnaeth llawer o ymatebion fynegi eu cefnogaeth ond gan awgrymu hefyd bod angen gweld y manylion. Nododd cyfran sylweddol o'r ymatebion nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno â chynigion canolog y papur ond bod arnynt eisiau rhagor o wybodaeth am fanylion ymarferol y dull newydd a blaenoriaethau sylfaenol Llywodraeth Cymru.

***Cynllunio adnoddau naturiol:*** Gofynnodd y papur ymgynghori sawl cwestiwn ar gysyniad cynllunio adnoddau naturiol yn lleol a chenedlaethol. Mynegwyd cefnogaeth eang i'r egwyddor ond codwyd llawer o gwestiynau a phryderon ynghylch manylion ymarferol y dull, gan gynnwys:

- sut y byddai cynllunio adnoddau naturiol yn cysylltu â phrosesau cynllunio eraill;
- peryglon ychwanegu cymhlethdod a 'haenau' ychwanegol o fiwrocratiaeth oni bai fod y broses yn cael ei chynllunio'n ofalus; a
- chael y cydbwysedd cywir rhwng pwysleisio diddordebau cenedlaethol a lleol.

Er y dadleuodd rhai dros gadw'r system gynllunio bresennol a systemau ar gyfer cynllunio amgylcheddol ac adnoddau naturiol ar wahân, mynegodd mwyafrif mawr eu cefnogaeth i integreiddio cynllunio adnoddau naturiol â'r systemau cynllunio presennol. Roedd gwahanol farn ynghylch pa drefn a ddylai gael 'uchafiaeth', gyda'r rhan fwyaf yn tueddu i ffafrio defnyddio'r system gynllunio bresennol ar gyfer y fframwaith cyffredinol a chynllunio adnoddau naturiol yn darparu sail tystiolaeth.

Teimlai'r rhan fwyaf o'r rhai a fynegodd farn y byddai cynllunio adnoddau naturiol yn aneffeithiol oni bai ei fod ar sail statudol.

Dehonglodd y rhan fwyaf y papur ymgynghori a'r cwestiynau fel petaent yn ceisio barn ar sut i baratoi cynlluniau adnoddau naturiol yn hytrach na chynllunio adnoddau naturiol fel dull.

***Meini prawf llwyddiant ar gyfer rheoli adnoddau naturiol:*** Gofynnodd un o gwestiynau'r ymgynghoriad yn benodol am feini prawf llwyddiant for ar gyfer rheoli adnoddau naturiol. Yr awgrymiadau mwyaf cyffredin ar gyfer meini prawf llwyddiant oedd:

- Bioamrywiaeth, yn enwedig gwrthsefyll colli bioamrywiaeth a'i hadfer.
- Sicrhau y defnyddir adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy.
- Integreiddio gwneud penderfyniadau a datrys anghydfod ynghylch defnyddio adnoddau.

***Yr angen am gynigion manwl:*** Awgrymodd rhai fod y cynigion yn y papur ymgynghori yn rhy aneglur ar hyn o bryd ac na fyddent yn ffurfio barn nes i Lywodraeth Cymru gyhoeddi mwy o fanylion ynghylch sut y disgwylir i gynllunio adnoddau naturiol weithio. Dywedodd llawer o'r rhanddeiliaid hyn eu bod yn disgwyl ymgynghoriad pellach ar ddatblygu opsiynau a dulliau ar gyfer cynllunio adnoddau naturiol.

***Symleiddio rheoliadau a dynodiadau*:** Mynegwyd cefnogaeth sylweddol i symleiddio rheoliadau a systemau dynodi. Gan amlaf dywedwyd bod hyn ar yr amod na ddylid gwanhau safonau gwarchod yr amgylchedd. Yn wir, awgrymodd llawer y dylid gweld adolygiad o sut y rheoleiddir yr amgylchedd gyda'r nod o symleiddio, fel cyfle i'w gryfhau a sicrhau canlyniadau amgylcheddol gwell, yn ogystal â chanlyniadau gwell i bobl a busnesau. Mynegodd rhai eu hamheuon a oedd modd cael gwell canlyniadau i'r amgylchedd a lleihau beichiau rheoleiddio. Gwnaeth rhai gwestiynu p'run o'r ddau amcan hyn yw prif flaenoriaeth Llywodraeth Cymru.

O ran blaenoriaethau ar gyfer symleiddio ac integreiddio dynodiadau amgylcheddol, nododd y rhan fwyaf o'r rhai a ymatebodd mai cadw a chryfhau swyddogaeth dynodiadau ac ardaloedd gwarchodedig sy'n allweddol i'r dyfodol. Mynegodd llawer eu pryder bod y papur ymgynghori yn creu camargraff bod y dull ecosystem yn awgrymu symud oddi wrth gadw a gwella rhwydweithiau o safleoedd gwarchodedig. Dywedodd nifer fod safleoedd gwarchodedig yn rhan hanfodol o'r dull ecosystem, yn hytrach na bod angen dewis rhwng y ddau beth. Ategodd y rhan fwyaf o'r sylwadau ar ddynodiadau y pwynt a wnaed mewn perthynas â symleiddio rheoliad – sef na ddylid lleihau safonau gwarchod yr amgylchedd.

***Rhoi deddfwriaeth amgylcheddol ar waith mewn ffordd fwy effeithiol:*** Thema gyffredin arall oedd yr angen i ganolbwyntio ar wella'r ffordd y rhoddir deddfwriaeth ar waith, yn hytrach na diwygio deddfwriaeth ei hun. Er bod rhai yn galw am ddiwygio deddfwriaeth, y farn gyffredinol oedd bod modd sicrhau bod trefniadau deddfwriaethol yn gweithio'n well, er lles yr amgylchedd, pobl a busnesau rheoledig.

Yn aml nodwyd y dylid rhoi blaenoriaeth i orfodi gwell a sicrhau cydymffurfiad â'r rheoliadau presennol.

***Cyfleoedd cymdeithasol ac economaidd yn sgil yr amgylchedd naturiol ac adnoddau naturiol:*** Gofynnodd y papur ymgynghori gwestiynau ynghylch a yw'r dull arfaethedig yn adlewyrchu'n ddigonol y cyfleoedd y mae'r amgylchedd naturiol yn eu cynnig ar gyfer datblygu economaidd a lles cymdeithasol. Y duedd oedd peidio ag ateb 'ydy' neu 'nac ydy' i'r cwestiynau hyn ond mynegi amrywiaeth o awgrymiadau ynghylch pa 'gyfleoedd coll' oedd yn y papur. Y prif fater dan sylw yma oedd gwerth economaidd amgylchedd Cymru fel ased ar gyfer hamdden a thwristiaeth, ynghyd â nifer tebyg o sylwadau ar bwysigrwydd esthetig a diwylliannol yr amgylchedd i bobl Cymru.

Soniodd llawer fod swyddogaeth amhrisiadwy i natur a thirwedd ar gyfer diwallu anghenion hamdden, celfyddydol ac ysbrydol ac na ellid rhoi gwerth economaidd arnynt. Rhybuddiodd llawer yn erbyn 'dibrisio' ecosystemau fel cyfres o nwyddau a gwasanaethau gwerthadwy. Y ddadl yw mai swyddogaethau diwylliannol anniriaethol yw rhai o 'wasanaethau' pwysicaf ecosystemau ac nad yw'n ymarferol na dymunol ceisio creu marchnadoedd ar eu cyfer.

Roedd cefnogaeth hefyd i ddefnyddio mwy ar farchnadoedd a systemau ar sail cymhellion economaidd, er enghraifft trwy hyrwyddo bwyd a gynhyrchir yn lleol gyda brand Cymreig nodedig a marchnata Cymru yn well ar gyfer hamdden a thwristiaeth amgylcheddol.

Mynegodd llawer eu pryderon a'u siom nad oedd llawer wedi cofrestru ar gyfer Glastir, o ystyried ei rôl fel menter flaenllaw ar gyfer defnyddio cymhellion economaidd i wella'r amgylchedd. Roedd cydnabyddiaeth eang o bwysigrwydd enfawr amaeth o ran darparu gwasanaethau ecosystem a bod amaeth yn rhoi pwysau ar systemau naturiol.

***Sgiliau ac offer sydd eu hangen ar gyfer y ffordd newydd o weithio:*** Gofynnodd y papur ymgynghori pa sgiliau ac offer fyddai eu hangen i sicrhau bod y ffordd newydd o weithio yn llwyddo. Y prif bethau a gafodd sylw yn yr ymatebion oedd:

- **Datblygu dealltwriaeth gyffredin o'r dull ecosystem**
  Mynegodd llawer, gan gynnwys y rhai oedd yn gefnogol iawn i'r cysyniad, eu hamheuon nad yw'r sgiliau a'r offer angenrheidiol wedi cael eu datblygu eto i alluogi cyrff sy'n gyfrifol am reoli a rheoleiddio adnoddau naturiol i ddefnyddio'r dull ecosystem wrth wneud penderfyniadau ymarferol.
- **Ymgysylltu â'r gymuned**
  Teimlai rhai nad oedd y sgiliau a'r dulliau ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned, ar gael, yn enwedig mewn cyrff yn y sector cyhoeddus. Dywedodd nifer o gyrff yn y trydydd sector fod cyrff gwirfoddol fel rheol wedi dangos llwyddiant blaenorol o ran ymgysylltu â'r gymuned ac y gallent wneud cyfraniad gwerthfawr o ran datblygu'r sgiliau.
- **Rôl y gwyddorau naturiol**
  Dywedodd llawer fod rôl allweddol i'r gwyddorau naturiol o ran deall sut mae ecosystemau yn gweithio ac yn arbennig y dylai eu 'cynhwysedd

cludo' gael blaenoriaeth uchel. Roedd llawer o feirniadaeth o'r diffyg pwyslais a roddwyd ar wyddorau'r ddaear a'r angen i seilio'r dull ecosystem ar ddealltwriaeth gadarn o geoamrywiaeth a'r amgylchedd anfiotig.

- **Diwylliant sefydliadol a chyflenwi cydgysylltiedig**
  Nododd nifer mai un o'r newidiadau allweddol oedd eu hangen oedd newid yn y diwylliant sefydliadol ac yn arbennig yr angen i dorri i lawr ffiniau neu 'seilos' rhwng gwahanol sefydliadau a disgyblaethau.

***Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol:*** Ar y cwestiwn o ddatblygu systemau gwybodaeth ddaearyddol fel modd o rannu gwybodaeth amgylcheddol yn fwy eang, roedd y rhan fwyaf o'r rhai a fynegodd farn yn gefnogol i unrhyw beth sy'n ei gwneud yn haws i'r cyhoedd gael hyd i wybodaeth, ac yn credu bod y systemau hyn yn ffordd gost-effeithiol o rannu data.

***Monitro amgylcheddol:*** Roedd cefnogaeth gyffredinol i ymgysylltu â mwy o bobl wrth fonitro a chasglu tystiolaeth amgylcheddol, yn enwedig os bydd yn golygu bod pobl yn ymddiddori'n fwy mewn materion amgylcheddol, yn lleol ac yn genedlaethol/byd-eang. Roedd unrhyw bryderon ynghylch y cynigion hyn yn ymwneud yn bennaf â gallu sicrhau ansawdd y data a gesglir gan y cyhoedd a phobl nad ydynt yn arbenigwyr. Nodwyd hefyd ei bod yn hanfodol bod digon o adnoddau ar gael i raglenni casglu data a bod ymrwymiad i barhau i ddarparu'r adnoddau hyn dros amser. Nodwyd na ddylai Llywodraeth Cymru ystyried y gellid hyrwyddo cael y cyhoedd i gyfranogi mwy wrth gasglu gwybodaeth amgylcheddol yn lle darparu digon o gyllid cyhoeddus ar gyfer rhaglenni monitro amgylcheddol allweddol.

**Materion eraill a godwyd**

Holodd y papur ymgynghori beth oedd barn pobl ar ba newidiadau eraill i ddeddfwriaeth neu systemau oedd eu hangen, gan ofyn am sylwadau ar unrhyw faterion y teimlid eu bod yn berthnasol.

Ymhlith y prif themâu a nodwyd roedd y canlynol:

- **Cael y cydbwysedd cywir rhwng rhoi cymhellion a gorfodi cydymffurfiad er mwyn cyflawni amcanion rheoli adnoddau naturiol.** Roedd gwahanol farn gan bobl ar y cwestiwn a oedd y fframweithiau presennol yn dibynnu gormod ar y naill neu'r llall.
- **O ran diwygio deddfwriaeth, awgrymodd rhai ei bod yn fwy pwysig sefydlu'r broses gywir ar gyfer adolygu deddfwriaeth,** ac yn enwedig sicrhau bod gan randdeiliaid mewn prosesau rheoliadol lais wrth ddatblygu dulliau newydd ac mai dyma ddylai'r flaenoriaeth gyntaf fod, yn hytrach na cheisio adnabod ar hyn o bryd pa ddeddfwriaeth y dylid ei newid. Cafodd yr ymadrodd 'esblygiad nid chwyldro' ei ddefnyddio'n fynych.
- **Prosesau gwell ar gyfer rhoi ar waith ddeddfwriaeth bresennol a datblygu arbenigedd, pragmatiaeth a diwylliant cyrff rheoleiddio, gyda mwy o bwyslais ar orfodi a chydymffurfio.**

- **Nododd cyfran fawr (28%) o'r rhai a ymatebodd werth cynhenid yr amgylchedd a bioamrywiaeth.** Roedd llawer o feirniadaeth bod y papur ymgynghori yn cyflwyno agwedd iwtilitaraidd iawn at natur, fel ffynhonnell nwyddau a gwasanaethau i'w defnyddio gan bobl. Nododd llawer fod yr ymagwedd hon yn chwithig ac yn groes i'r dull ecosystemau, fel y'i diffinnir dan y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol. Gofynnwyd yn aml yn yr ymatebion: beth fydd yn digwydd i rannau o ecosystemau nad oes ganddynt unrhyw fudd amlwg – neu fudd y gellir ei fesur – i bobl?
- **Ystyried tirwedd a'r amgylchedd hanesyddol a diwylliannol:** Cyfeiriodd llawer at y cyfle i fabwysiadu ymagwedd newydd at gynllunio a rheoli'r amgylchedd ac adnoddau naturiol ar sail tirwedd. Nodwyd bod Cymru yn barti i'r Confensiwn Tirweddau Ewropeaidd a bod angen i ni wneud mwy i'w roi ar waith. Yn yr un modd, nodwyd y synergeddau a'r cyfleoedd posibl i gyfannu dulliau o reoli'r amgylchedd naturiol a'r amgylchedd hanesyddol. Dadleuodd rhai nad oes gan Gymru amgylchedd 'naturiol' fel y cyfryw, ond yn hytrach un sydd wedi'i lunio gan ein hanes diwylliannol. Dywedodd rhai y dylem integreiddio wrth ddatblygu deddfwriaeth newydd ar gyfer yr amgylchedd naturiol a'r amgylchedd hanesyddol.
- **Y berthynas â'r amgylchedd morol:** Roedd llawer o'r ymatebion gan unigolion a sefydliadau sydd â diddordeb arbennig yn yr amgylchedd morol yn beirniadu'r papur ymgynghori gan ddweud ei fod yn canolbwyntio gormod ar y tir, gan fethu â chydnabod maint arwynebedd morol Cymru o'i gymharu â'r tir, pwysigrwydd gwasanaethau ecosystemau morol na'r pwysau sy'n wynebu ecosystemau morol. Roedd eraill yn pryderu bod datblygu cynllunio gofodol morol a mabwysiadu'r dull ecosystem yn digwydd yn araf oherwydd na roddwyd blaenoriaeth ac adnoddau iddynt, er bod sôn amdanynt ar yr un pryd fel model y gallai cynllunio adnoddau naturiol ar y tir ei ddilyn.
- **Cyfeiriodd llawer o'r rhai a ymatebodd at yr egwyddor ragofalus**, gan ddweud y dylai barhau i fod yn ganolog i'r polisïau a'r rheoleiddio sy'n effeithio ar yr amgylchedd. Fodd bynnag, sylweddolwyd ei bod yn well gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth, ar yr amod bod y dystiolaeth hanfodol yn bodoli. Codwyd cwestiynau ynghylch beth yn ymarferol oedd ystyr ffyrdd o reoleiddio sy'n 'seiliedig ar risg'.